# Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r Bil yn cyflawni un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae'n darparu ar gyfer **fframwaith** i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy **weithio mewn partneriaeth gymdeithasol**, **hyrwyddo gwaith teg** a **chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol**.

## Mae'r Bil yn dwyn ynghyd 4 egwyddor:

**Partneriaeth Gymdeithasol**
Gweithio i gyflawni nod y cytunwyd arno ar y cyd, er budd yr holl grwpiau cysylltiedig.

**Caffael Cymdeithasol Gyfrifol**
Gweithredu, wrth brynu nwyddau,gwaith a gwasanaethau, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

**Gwaith Teg**
Telerau gwell i weithwyr sy'n hanfodol i Gymru decach, mwy cyfartal a mwy ffyniannus.

**Datblygu Cynaliadwy**
Gwneud pethau nawr mewn ffordd sy'n ystyried yr effaith ar bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol.

## Prif ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth

**Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol**
Bydd y corff cynghori statudol teirochrog hwn yn gweithredu fel fforwm traws-sector cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog Cymru, ac yn cynnwys aelodau o blith amrywiaeth o bartneriaid cymdeithasol sy'n cynrychioli cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy undebau llafur.

**Gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol** i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu, pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig, gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**Gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru** i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau i'w cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**Diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn y nod presennol 'Cymru lewyrchus'. Effaith y gwelliant yw ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus ystyried 'gwaith teg' wrth osod amcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gaffael**, er mwyn pennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant y mae'n rhaid i'r cyrff hynny eu cyflawni, a chyhoeddi strategaeth gaffael.

**Rhai cyrff cyhoeddus i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau,** er mwyn sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio drwy gadwyni cyflenwi.

**Gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru** mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael.

Gweler yma am wybodaeth bellach:
Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)